# COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD A THRWY ZOOM DDYDD IAU, 26 MAI 2022

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Sir B Baynham, D Bebb, M Beecham, S J Beecham, B Breeze, G Breeze, J Berriman, L Brighouse, A Cartwright, J Charlton, R Church, T Colbert, S Cox, A W Davies, A Davies, B Davies, B Davies, S C Davies, M J Dorrance, D Edwards, J Ewing, L George, J Gibson-Watt, K Healy, H Hulme, P James, A Jenner, A Jones, E A Jones, E Jones, G D Jones, G E Jones, J R Jones, A Kennerley, C Kenyon-Wade, P Lewington, K Lewis, W Lloyd, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Johnson-Wood, G Mitchell, G Morgan, G Morgan, WD Powell, G Preston, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, C Robinson, E Roderick, D Selby, D A Thomas, RG Thomas, J Thorp, E Vaughan, C Walsh, J Wilkinson, A Williams, D H Williams, J M Williams a S L Williams

| 1. | ETHOL CADEIRYDD |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd sy’n ymadael, y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas, yr aelodau newydd a'r rhai a oedd yn dychwelyd yn dilyn yr etholiadau. Mynegodd ei ddymuniadau gorau i gymuned Ysgol Uwchradd Caereinion yn dilyn damwain ddiweddar yno a'i ddiolch i'r gwasanaethau a ymatebodd. Dywedodd ei fod wedi rhoi rhoddion o £9,000 o Gronfa'r Cadeirydd i Sefydliad DPJ, banc bwyd y Trallwng, Cyfeillion Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt Croesoswallt a CFfI ym Mhowys.

Cynigiodd yr aelodau deyrnged i'r Cynghorydd Gwynfor Thomas am y ffordd yr oedd wedi arwain y Cyngor dros y 18 mis diwethaf.

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas ei bathodyn cyn-Gadeirydd i'r Cynghorydd Beverley Baynham i nodi ei thymor fel Cadeirydd.

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe gan y Cynghorydd Sir Susan McNicholas ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Sir William Powell. Yn unfrydol

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.**

Cyflwynodd y Cynghorydd Ratcliffe ei fathodyn cyn-Gadeirydd i'r Cynghorydd Thomas i nodi ei dymor fel Cadeirydd. Croesawodd y Cynghorydd Ratcliffe aelodau newydd i'r Cyngor a diolchodd i'r aelodau nad oeddent wedi dychwelyd am eu gwasanaeth i'w cymunedau. Dywedodd mai ei flaenoriaethau am y flwyddyn fyddai iechyd meddwl wrth i’r wlad ddod allan o’r pandemig, gwneud gwahaniaeth i’r rhai sy’n byw gyda dementia a phartneriaeth gyda’r trydydd sector ac iechyd.

| 2. | ETHOL IS-GADEIRYDD |
|---|---|

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Beverley Baynham gan y Cynghorydd Sir Ange Williams ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Beverley Baynham yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.**

| 3. | ETHOL IS-GADEIRYDD CYNORTHWYOL |
|---|---|

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Jonathan Wilkinson gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Jonathan Wilkinson yn Is-Gadeirydd Cynorthwyol am y flwyddyn i ddod.**

| 4. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Sir Ian Harrison. Roedd y Cynghorwyr Sir Jake Berriman, Anita Cartwright, Bryn Davies, Gary Mitchell a Michael Williams yn mynychu o bell.

| 5. | DATGANIADAU O FUDDIANT |
|---|---|

Dywedodd y Swyddog Monitro fod gan bob aelod fuddiant personol ond nad oedd yn rhagfarnu, yn eitem 10, Cyflogau, Lwfansau a Threuliau Aelodau ond bod eithriad yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau a oedd yn caniatáu i'r Aelodau siarad a phleidleisio ar yr eitem hon.

| 6. | ADRODDIAD Y SWYDDOG CANLYNIADAU - ETHOL CYNGHORWYR SIR |
|---|---|

Derbyniodd y Cyngor adroddiad y Swyddog Canlyniadau yn nodi manylion y Cynghorwyr a etholwyd ar 5 Mai 2022. Llongyfarchodd y Prif Weithredwr bawb a etholwyd a diolchodd i’r tîm Etholiadau ac i bawb a oedd wedi cynorthwyo i gynnal yr etholiadau.

**PENDERFYNWYD nodi manylion y Cynghorwyr a etholwyd ar 5 Mai 2022.**

| 7. | ETHOL ARWEINYDD |
|---|---|

Enwebwyd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Sir Gareth Morgan. O 56 pleidlais i 1 gydag 8 yn ymatal

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt yn Arweinydd Cyngor Sir Powys.**

| 8. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Diolchodd y Cynghorydd Sir Gibson-Watt i'r Aelodau am ymddiried ynddo. Diolchodd i'r weinyddiaeth a oedd yn ymadael o dan Rosemarie Harris am eu gwaith a gyflawnwyd yn ystod amgylchiadau anodd y pandemig. Diolchodd hefyd i staff a oedd wedi darparu gwasanaethau trwy gydol y pandemig. Cyfeiriodd at y Cytundeb Partneriaeth Blaengar a anfonwyd at yr Aelodau i gyd ac a oedd yn nodi'r cyfeiriad y byddai'r weinyddiaeth newydd yn ei ddilyn. Dywedodd y byddai'r Cabinet yn gweithio mewn modd cydweithredol, gan geisio cynnwys holl aelodau'r Cyngor. Gwahoddodd arweinwyr y grwpiau i enwebu aelod i weithgor i adolygu ac adnewyddu'r Cynllun Corfforaethol.

Dywedodd y Cynghorydd Gibson-Watt mai aelodau ei Gabinet fyddai:

Y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Bowys Decach
Y Cynghorydd Sir David Selby, Aelod Cabinet dros Bowys Fwy Ffyniannus
Y Cynghorydd Sir David Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid Corfforaethol
Y Cynghorydd Sir Sian Cox, Aelod Cabinet dros Bowys Ofalgar
Y Cynghorydd Sir Richard Church, Aelod Cabinet ar gyfer Powys Ddiogelach
Y Cynghorydd Sir Pete Roberts, Aelod Cabinet dros Bowys yn Dysgu
Y Cynghorydd Sir Jackie Charlton, Aelod Cabinet dros Bowys Wyrddach Y Cynghorydd Sir Sandra Davies a'r Cynghorydd Sir Susan McNicholas, Aelod Cabinet Cenedlaethau'r Dyfodol (Rhannu Swydd)
Y Cynghorydd Sir Jake Berriman, Aelod Cabinet dros Bowys Gysylltiedig.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Sir Aled Davies, Arweinydd grŵp y Ceidwadwyr, y Cynghorydd Gibson-Watt ar gael ei ethol yn Arweinydd a dywedodd y byddai'n ceisio darparu gwrthwynebiad cadarnhaol. Talodd deyrnged i Rosemarie Harris a'r cydweithwyr yr oedd wedi gwasanaethu â nhw ar y Cabinet a oedd yn ymadael.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan, Arweinydd grŵp Plaid Cymru y Cynghorydd Gibson-Watt. Dywedodd y byddai'n cefnogi'r Cabinet i gryfhau'r Gymraeg ac yn eu hatgoffa o'r ymrwymiadau a wnaed ar Dreth y Cyngor.

| 9. | DYRANIADAU, ETHOLIADAU A PHENODIADAU Y MAE ANGEN EU GWNEUD YNG NGHYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd am y dyraniadau a'r penodiadau i'w gwneud i bwyllgorau a chyrff allanol.

**Penodiadau gyda Chydbwysedd Gwleidyddol i Bwyllgorau'r Cyngor**

**Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir William Powell a

**PHENDERFYNWYD**

**(i) Penodi'r Cynghorydd Sir Matt Beecham Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, y Cynghorydd Sir Iain McIntosh Ceidwadwyr Cymreig, y Cynghorydd Sir Liz Rijnenberg Llafur Cymru.**

**(ii) Awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y pedwerydd penodiad yn unol ag enwebiadau a dderbyniwyd gan yr Arweinydd Grŵp perthnasol a hysbysu'r Cyngor.**

**Penodi Aelodau Cyfetholedig i Bwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Ange Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies a

**PHENDERFYNWYD**

**(i) Penodi Cynrychiolwyr Cyfetholedig i'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau am gyfnod o bedair blynedd hyd at fis Mai 2026 fel y nodir ym mharagraff 5.7 yr adroddiad.**

**(ii) Awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud penodiadau yn unol ag enwebiadau a dderbyniwyd gan gynrychiolydd esgobaeth yr Eglwys Gatholig.**

**Penodi Aelodau Cyfetholedig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

Nododd y Cyngor ar ôl penodi Gareth Hall a Lynne Hamilton fel Aelodau Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod diwethaf ar 3 Mawrth, fod Mr John Brautigam wedi'i benodi am dymor olaf fel y trydydd Aelod Lleyg.

**Penodiadau gyda Chydbwysedd Gwleidyddol i Bwyllgorau'r Cyngor**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts a

**PHENDERFYNWYD cymeradwyo dyrannu seddi ar Bwyllgorau'r Cyngor i'r gwahanol Grwpiau Gwleidyddol yn unol â Thudalen 3 o Atodiad 3 yr adroddiad.**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Edwin Roderick a

**PHENDERFYNWYD awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud penodiadau yn unol ag enwebiadau a dderbyniwyd gan yr Arweinyddion Grŵp perthnasol a hysbysu'r Cyngor.**

**Penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Huw Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Jones

**PENDERFYNWYD**

**(i) penodi'r Cynghorydd Sir Angela Davies yn Gadeirydd Pwyllgor Craffu'r Economi, Preswylwyr a Chymunedau a'r Cynghorydd Sir Amanda Jenner yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal;**

**(ii) awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud penodiadau yn unol ag enwebiadau a dderbyniwyd gan yr Arweinyddion Grŵp perthnasol a hysbysu'r Cyngor.**

**Penodi Cadeiryddion i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Edwin Roderick a

**PHENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

**Penodiadau gyda Chydbwysedd Gwleidyddol i Gyrff Allanol Perthnasol**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB)**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams a

**PHENDERFYNWYD**

**(i) gwneud penodiadau i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn unol ag enwebiadau'r grwpiau gwleidyddol fel y nodir isod:**
**Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Cynghorwyr Sir Gareth Ratcliffe a William Powell**
**Grŵp Annibynnol: Cynghorydd Sir Edwin Roderick**
**Ceidwadwyr Cymreig: Cynghorydd Sir Iain McIntosh**
**Llafur Cymru: Cynghorydd Sir Huw Williams**

**(ii) awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud penodiadau yn unol ag enwebiadau a dderbyniwyd gan Arweinyddion y Grwpiau perthnasol a hysbysu'r Cyngor.**

**Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MWWFRA)**

Disgwylir cadarnhad gan Glerc yr Awdurdod ynghylch nifer a chyfansoddiad gwleidyddol enwebeion y Cyngor. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams a

**PHENDERFYNWYD awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud penodiadau yn unol ag enwebiadau a dderbyniwyd gan Arweinyddion y Grwpiau perthnasol a hysbysu'r Cyngor.**

**Heddlu Dyfed Powys a'r Panel Troseddau**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts a

**PHENDERFYNWYD penodi'r Cynghorwyr Sir Les George, Liz Rijnenberg a William Powell i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed Powys.**

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**

Enwebwyd y Cynghorwyr Sir Jackie Charlton, Aled Davies, Matthew Dorrance a James Gibson-Watt. Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorwyr Sir Jackie Charlton, Matthew Dorrance a James Gibson-Watt i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.**

**Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Enwebwyd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt gan y Cynghorydd Sir Michael Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Little Brighouse.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir James Gibson-Watt i Fwrdd Gweithredol CLILC.**

**Penodiadau i Gyrff Allanol Eraill a Gweithgorau'r Cyngor**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir David Selby ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Ange Williams a

**PHENDERFYNWYD gwneud y penodiadau canlynol**

| Corff Allanol/<br>Gweithgor y Cyngor | Enwebai |
|---|---|
| Panel Grantiau Sefydliad Cymunedol Powys | Y Cynghorwyr Sir:<br>David Meredith<br>Edwin Roderick<br>Gary Mitchell<br>Joy Jones<br>Little Brighouse<br>Angela Davies |
| Cyngor Iechyd Cymuned Powys | Y Cynghorwyr Sir:<br>Heulwen Hulme<br>Ange Williams |
| Cronfa Ysgoloriaethau Prifysgol | Y Cynghorwyr Sir: |

| | |
|---|---|
| Aberhonddu | Sarah-Jane Beecham<br>Chris Walsh |
| Cymdeithas Gefeillio Llandrindod a’r Fro | Y Cynghorydd Sir Josie Ewing |
| Gweithgor Datblygu Lleol | Y Cynghorwyr Sir:<br>Jeremy Pugh<br>Edwin Roderick<br>Gary Mitchell<br>Karl Lewis<br>Gareth E Jones<br>Corrina Kenyon-Wade |
| Pwyllgor Ymgynghorol Sefydlog Powys ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | Y Cynghorwyr Sir:<br>Jackie Charlton<br>Michael Williams<br>Ange Williams |
| Panel Craffu’r Tenantiaid | Y Cynghorwyr Sir:<br>Huw Williams<br>Michael Williams<br>Adam Kennerley<br>Ange Williams |
| Pwyllgor Rheoli Theatr Hafren | Y Cynghorwyr Sir:<br>Gareth D Jones<br>Glyn Preston<br>Gwynfor Thomas |

**Pwyllgor Ymgynghorol Mordwyo Gwy**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir William Powell a

**PHENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Tom Colbert i Bwyllgor Ymgynghorol Mordwyo Gwy.**

**Cyngor Llyfrau Cymru**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir William Powell ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis a

**PHENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Edwin Roderick i Gyngor Llyfrau Cymru.**

| 10. | CYFLOGAU, LWFANSAU A THREULIAU’R AELODAU |
|---|---|

Atgoffodd y Swyddog Monitro yr Aelodau fod ganddynt fuddiant personol nad oedd yn rhagfarnu yn yr eitem hon ond bod eithriad cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad.

Nododd y Cyngor argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) o ran y symiau i’w talu fel Cyflog Sylfaenol, Cyflog Uwch a

Chyflogau Dinesig. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo nifer y swyddi ar Gyflogau Uwch sy'n cael eu talu a chymeradwyo cyhoeddi Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau 2022/23.

Cynigiwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Ange Williams ac o 51 pleidlais i 2 gyda 7 yn ymatal

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cymeradwyo'r argymhelliad i ddyrannu hyd at 17 o Gyflogau Uwch fel y manylir arnynt yn adran 4 yr adroddiad.**

**(ii) Cymeradwyo cyhoeddi Rhestr Tâl Aelodau yn seiliedig ar yr adroddiad.**

## 11. CYNGOR CYMUNED LLANDDEWI-YN-HWYTYN

Hysbyswyd y Cyngor nad oedd unrhyw ymgeiswyr wedi dod ymlaen i sefyll ar gyfer Cyngor Cymuned Llanddewi-yn-Hwytyn yn yr etholiadau ar 5 Mai 2022. Hyd nes y cynhelir etholiad ar 23 Mehefin 2022, cynigiwyd bod y Cynghorwyr Sir drosLangynllo gyda Norton, Tref-y-clawdd a Bugeildy, Pencraig a Llanandras yn gweithredu fel aelodau dros dro. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir William Powell ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis a

**PHENDERFYNWYD gwneud Gorchymyn Cyngor Cymuned Llanddewi-yn-Hwytyn (Dileu Anhawster) 2022 fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.**

**Y Cynghorydd Sir GW Ratcliffe**
**(Cadeirydd)**